

# YOUR PLANET NEEDS YOU!



## MANIFFESTO YSGOLION CYNALIAY BETHAN

*Cardwenynen Feinllais*

Fel merch ysgol mae gen i fy marn ar ysgolion eco, ac rwy'n teimlo bod fy marn a'm syniadau'n cyfrif, felly dyma rai ohonyn nhw. Gellir eu haddasu ar gyfer y gweithle, y cartref neu 'r coleg.

- Dylai ysgolion dyfu eu bwydydd eu hunain: tatws, cennin, tomatos, ac ati.
- Dylai ysgolion gynnal gweithdai lleol i godi ymwybyddiaeth o broblemau'r byd a chodi arian ar gyfer paneli solar neu gyflenwadau eco-ysgolion. (Yn fy ysgol i, Ysgol wWdig / Ysgol Gymunedol Wdig aeth hyn yn dda iawn ac roedd gennym ni hyd yn oed rai arwyr eco lleol yn dod i mewn i siarad â ni.)
- Dylai ysgolion drefnu sesiynau casglu-sbwriel ar dir yr ysgol a'r parthau cyhoeddus.
- Roedd y plant iau yn ein hysgol yn mwynhau creu cynefinoedd anifeiliaid megis cartrefi adar, gwestai pryfed, pyllau pryfed hofran, ac ati.
- Mae bod yn llysieuwr neu'n figan yn bendant yn gwneud gwahaniaeth mawr, felly beth am awgrymu diwrnod llysieuol bob wythnos neu, hyd yn oed yn well, dod yn llysieuwr.
- Yn ein hysgol ni mae gennym darn bach o dir gwyllt y gallem ei hehangu a chredaf y dylai pob ysgol greu darn o dir tebyg.
- Yn ein hysgol ni mae'n anodd rhoi'r gorau i blastigau un-ddefnydd ond gallwn ni roi cynnig go iawn arno.
- Rwy'n credu y byddai'n gwneud gwahaniaeth i gynnal Gwasanaethau Ysgol Eco er mwyn hysbysu pawb am yr hyn rydych chi'n ei wneud fel ysgol; fe allech chi hyd yn oed gael rhai siaradwyr gwadd i ddod i mewn i siarad.
- Syniad da a gefais ar ôl bod i gynhadledd Eco-ysgolion oedd ysgrifennu llythyr at eich AS lleol; mae hwn yn weithgaredd gwyb i blant ei wneud yn ystod gwrs ysgol.
- Yn 2019, dechreu creuodd fy ffrindiau gorau i, Eliza a Leila, a minnau hefyd, glwb casglu sbwriel gyda chasglwyr sbwriel yr ysgol. Byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr pe byddech chi'n dechrau/creu un hefyd.
- Os ydych chi'n byw yn agos at eich ysgol, beth am feicio, neu gerdded i'r ysgol; os ydych chi'n byw ymhell i ffwrdd, yna daliwch fws.
- Mae'n bwysig iawn bod plant ysgol yn wybodus am broblemau'r byd. Pa ffordd well o wneud hynny na mynd ar deithiau eco-ysgol i leoedd fel cwmnïau lleol, ffermydd a thraethau.
- Ar ddiwrnodau cynnes, yn lle bod y tu mewn, beth am fynd allan a chael gwersi yn yr awyr agored?
- Mae creu fferm fach yn syniad mor dda; fe allech chi gael llysiau ac ieir - ond heb anghofio y bydd rhaid i rywun ofalu amdany'n nhw yn ystod y gwyliau.
- Mae cinio heb blastig a chiniawau wedi'u pacio heb blastig, yn syniad anhygoel (cevais y syniad hwn pan fynychais i gynhadledd Eco-ysgol).
- Syniad da arall yw mynd i'r ysgol gyda photel ddŵr y gellir ei hailddefnyddio oherwydd felly bydd ddim angen i'r ysgol brynu cwpanau plastig.
- Mae ein hysgol yn gwneud celf allan o sbwriel yn lle defnyddio deunyddiau newydd.
- Annog yr ysgol i ddefnyddio llai o gemegau trwy ddefnyddio cynhyrchion glanhau eco.
- Yn fy ngardd i, mae gennym fin compost. Mae pob ysgol yn cynhyrchu cymaint o wastraff gwyrdd y dylent ei gompostio.
- Byddai cyfnewid llyfrau, cyfnewid dillad a chyfnewid teganau yn yr ysgol yn werth chweil. Rydyn ni'n gwneud hyn yn ein hysgol ni yn barod.